Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llamu Ymlaen – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy


Blwyddyn archwilio: 2021–22

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3459A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhan o waith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015].

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol neu unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn gweithio i weithredu ei weledigaeth a'i gynlluniau ar draws yr holl wasanaethau 8

Asedau 8

Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau clir i gyflawni amcanion corfforaethol blaenorol, ond nid yw wedi manteisio ar y cyfle i'w ail-lunio ar gyfer yr hirdymor hyd yma 8

Mae'r Cyngor wedi cyflawni agweddau allweddol ar ei gynllun rheoli asedau ac mae'n gweithio gyda phartneriaid i wneud y defnydd gorau posibl o'i asedau 9

Caiff cynllun rheoli asedau y Cyngor ei fonitro, ond nid yw'n meincnodi ei berfformiad 10

Gweithlu 11

Mae gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei weithlu yn y dyfodol, ond mae'n cydnabod bod angen ei adnewyddu yn dilyn y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig 11

Mae'r Cyngor wedi gweithredu model hybrid o weithio ar gyfer ei weithlu 12

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o faterion cyfredol y gweithlu, ond nid yw'n meincnodi ei drefniadau ac nid oes ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion tymor hwy er mwyn llywio ei gynlluniau 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn wedi edrych ar sut mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.

2 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu:

a. o ran asedau, ein prif ganolbwynt oedd swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i'w drigolion ohonynt; ac

b. o ran y gweithlu, rydym wedi canolbwyntio ar yr heriau a amlygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwaethygu rhai materion gweithlu hirsefydlog.

Gwnaethom edrych ar sut mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol i ddefnyddio ei asedau a'i weithlu, sut mae'n monitro'r defnydd ohonynt a sut mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

3 Pan yr oeddem ni'n dechrau ar ein gwaith archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gwnaethom gydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd yn nodi ein disgwyliad, dros y tymor canolig, i gyrff cyhoeddus allu dangos sut mae'r Ddeddf yn llunio'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach yn agosáu at saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym yn ail gyfnod adrodd y Ddeddf yn awr. Felly, rydym yn disgwyl bellach i gyrff cyhoeddus allu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl ac sy'n wir lywio yr hyn y maent yn ei wneud.

4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- cael sicrwydd bod y Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau;
- esbonio'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn unigol ac mewn partneriaeth i gryfhau ei drefniadau yn ogystal ag ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach; ac
- ysbrydoli'r Cyngor a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach drwy gasglu a rhannu enghreifftiau o arferion nodedig, a thrwy ddysgu a gwneud argymhellion priodol.

5 Mae hyn yn bwysig oherwydd bod Cyngor Conwy yn buddsoddi symiau sylweddol yn ei asedau adeiladau a'i weithlu. Dangosir rhywfaint o wybodaeth allweddol o 2020–21 yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: ffeithiau a ffigurau allweddol sy’n ymwneud ag asedau adeiladau a’r gweithlu. Mawrth 2021**

| | |
|---|---|
| Nifer yr adeiladau yr oedd y Cyngor yn berchen arnynt yn 2020–21 | 718 adeilad |
| Gwerth eiddo, ar 31 Mawrth 2021 | Oddeutu £277 miliwn |
| Gostyngiad yng nghyfanswm y lle swyddfa o 2013 hyd 2020 (mewn metrau sgwâr) | 2013: 24,558<br>2020: 16,898 |
| Nifer y staff | 4,048 |
| Canran y gweithlu, o’r staff a oedd yn wrywod | 27.1% |
| Canran y gweithlu, o’r staff a oedd yn fenywod | 72.9% |
| Canran y staff sy’n gweithio’n llawn amser | 48.5% |
| Canran y staff sy’n gweithio’n rhan-amser | 51.5% |
| Canran y staff dros 55 oed | 26.2% |
| Nifer y staff a adawodd y Cyngor ô’u dewis eu hunain yn 2020–21 | 267 |

6 Mae pandemig COVID-19 a phwysau ariannol parhaus wedi effeithio ar y galw am adeiladau a’r ffordd y mae staff yn gweithio. Mae’r adroddiad hwn yn archwilio rhai o’r effeithiau hyn a’r ffordd y mae’r Cyngor yn elwa ar y nodweddion cadarnhaol ac yn lliniaru risgiau o’r nodweddion negyddol wrth gynllunio ar gyfer y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

7 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid? Wrth wneud y gwaith hwn, gwnaethom nodi rhywfaint o effaith uniongyrchol y pandemig yn ogystal â rhai materion gweithredu a llywodraethu a waethygwyd gan y pandemig.

8 Yn gyffredinol, canfuom fod y Cyngor yn gweithio i weithredu ei weledigaeth a'i gynlluniau ar draws yr holl wasanaethau.

9 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau clir i gyflawni amcanion corfforaethol blaenorol, ond nid yw wedi manteisio ar y cyfle i'w ail-lunio ar gyfer yr hirdymor hyd yma;
- mae'r Cyngor wedi cyflawni agweddau allweddol ar ei gynllun rheoli asedau ac mae'n gweithio gyda phartneriaid i wneud y defnydd gorau posibl o'i asedau
- caiff cynllun rheoli asedau y Cyngor ei fonitro, ond nid yw'n meincnodi ei berfformiad;
- mae gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei weithlu yn y dyfodol, ond mae'n cydnabod bod angen ei adnewyddu yn dilyn y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig;
- mae'r Cyngor wedi gweithredu model hybrid o weithio ar gyfer ei weithlu; ac
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o faterion presennol y gweithlu, ond nid yw'n meincnodi ei drefniadau ac nid oes ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion tymor hwy er mwyn llywio ei gynlluniau.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae’r tabl isod yn cynnwys yr argymhellion a nodwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| **Cynllunio strategol a’r egwyddor datblygu cynaliadwy** | |
| A1 | Mae angen i'r Cyngor ddangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau yn y dyfodol o ran ei asedau a’i weithlu, Dylai adeiladu ar brofiad o’r pandemig, er mwyn datblygu dull hirdymor o ymdrin â’i asedau a’i weithlu, sydd wedi ei integreiddio â chynlluniau allweddol eraill ac a gefnogir gan gynlluniau cyflawni wedi eu costio. |
| **Data a meincnodi** | |
| A2 | Dylai’r Cyngor ddatblygu ymhellach y defnydd o feincnodi i lywio gwaith cynllunio, pennu cyllidebau, ac i fesur llwyddiant mwy hirdymor ei fentrau asedau a gweithlu. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn gweithio i weithredu ei weledigaeth a'i gynlluniau ar draws yr holl wasanaethau

## Asedau

### Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau clir i gyflawni amcanion corfforaethol blaenorol, ond nid yw wedi manteisio ar y cyfle i'w ail-lunio ar gyfer yr hirdymor hyd yma

#### Pam mae gosod gweledigaeth glir yn bwysig

10 Mae strategaeth rheoli asedau clir a chynlluniau cyflawni datblygedig yn bwysig er mwyn nodi'r defnydd o asedau a fwriedir dros y tymor byr a'r tymor hwy; y cyllid sydd ar gael i gynnal a datblygu asedau, yn ogystal â lefel y galw am wasanaethau a ragwelir yn y dyfodol, a'r gost o'u darparu. Mae hefyd yn bwysig nodi sut mae'r strategaeth rheoli asedau yn cyd-fynd ac wedi ei hintegreiddio â strategaethau perthnasol eraill gan gynnwys, gweithio ystwyth, y gweithlu, digidol, a lleihau carbon. Gall dysgu o'r newidiadau a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19 byd-eang helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwasanaethau a ddarperir.

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae Cynllun Rheoli Asedau corfforaethol 2012-22 y Cyngor yn nodi gweledigaeth glir i sicrhau bod asedau tir ac adeiladau'r Cyngor yn gyson â'r gwasanaethau a ddarperir a bod yr asedau hynny'n cael eu rheoli'n effeithlon ac yn gynaliadwy-y mae'n crynhoi fel y maint cywir i ddiwallu anghenion gweithredol.
- mae'r Cynllun Rheoli Asedau a'i bolisïau cysylltiedig wedi eu hintegreiddio'n dda. Cefnogir y Cynllun Rheoli Asedau gan gynlluniau rheoli asedau gwasanaethau ac amrywiaeth o bolisïau cysylltiedig sy'n hybu ar y cyd y gwaith o reoli asedau yn effeithiol.
- mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn nodi sut mae'r Cyngor yn ystyried datblygu cynaliadwy yn ei ddull o ymdrin â'i asedau. Er enghraifft, cafodd penderfyniad y Cyngor i symud ei bencadlys i Fae Colwyn ei sbarduno gan yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar y broses o helpu i adfywio canol y dref, sy'n un o amcanion llesiant y Cyngor.
- mae cynllun rheoli asedau a strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor yn dod i ben yn 2022. Wrth i'r Cyngor ddiweddaru ei Gynllun Rheoli Asedau, bydd yn bwysig i'r Cyngor sicrhau bod cynlluniau cyflawni wedi eu costio yn

cefnogi ei Gynllun Rheoli Asedau a bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn tanategu ei ddull strategol o ymdrin â'i asedau.

- i wneud hyn, mae angen i'r Cyngor ystyried tueddiadau mwy hirdymor a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol a allai effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir a'r defnydd effeithlon o'i asedau adeiledig. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn adolygu ac yn asesu yn rheolaidd gyda staff sut mae'r model hybrid yn gweithio a bydd angen iddo ystyried yr hyn y gallai ei olygu o ran defnyddio ei asedau yn y dyfodol.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni agweddau allweddol ar ei gynllun rheoli asedau ac mae'n gweithio gyda phartneriaid i wneud y defnydd gorau posibl o'i asedau

### Pam mae rheoli'r gwaith o gyflawni newidiadau arfaethedig i asedau yn effeithiol yn bwysig

12 Mae'n bwysig bod cynlluniau rheoli asedau yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn effeithlon ac yn effeithiol fel bod y gwariant gwirioneddol cyn agosed â phosibl at y lefelau arfaethedig a bod cynghorau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol. Gall cydweithredu effeithiol â sefydliadau eraill a chynnwys cymunedau mewn cysylltiad â'u hanghenion wella'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion. Pan nad oes gan gynghorau yr ystod o sgiliau, yr wybodaeth, na'r arbenigedd i reoli'n effeithiol o ran rheoli asedau parhaus a chyflawni newidiadau strategol, gallai hyn leihau'r gallu i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae'r Cyngor wedi gweithredu agweddau allweddol ar ei Gynllun Rheoli Asedau. Mae hyn yn cynnwys agor ei swyddfa bwrpasol newydd, Coed Pella, ym Mae Colwyn. Dyluniwyd y swyddfa â'r potensial ar gyfer newidiadau yn y dyfodol i ddarparu mwy o hyblygrwydd gwasanaeth..
- yn unol â'i raglen gwaredu eiddo, mae'r Cyngor wedi lleihau ei sylfaen asedau. Tanategir ei ddull gan yr egwyddor na chedwir tir nac adeiladau oni bai bod eu hangen at ddibenion gweithredol, cynhyrchu incwm neu ddibenion sy'n strategol i'r safle.
- mae'r rhaglen gwaredu asedau wedi cael effaith fuddiol ar ddatblygiad economaidd y Cyngor ac ar flaenoriaethau corfforaethol sy'n gysylltiedig â thai. Mae swyddfeydd dros ben y Cyngor wedi eu hailddatblygu gan eu perchnogion newydd. Mae hyn yn cynnwys newid defnydd er mwyn darparu lle ar gyfer manwerthu a thai cymdeithasol, tai fforddiadwy ac unedau tai â chymorth (e.e. adeiledir sawl cynllun gofal ychwanegol y Gymdeithas Dai ar safle cartrefi yr oedd y Cyngor yn arfer bod yn berchen arnynt)
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd i wella effeithlonrwydd ynni ei adeiladau yn unol ag amcan llesiant ei uchelgais amgylcheddol. Rhwng 2013 a 2020, cyflawnodd y Cyngor ostyngiad o 14% mewn costau defnyddio ynni a dŵr

swyddfa a gostyngiad o 28% mewn allyriadau carbon. Cyflawnodd y Cyngor sgôr cynaliadwyedd Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) 'Ardderchog' ar gyfer swyddfa newydd Coed Pella. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Her yr Hinsawdd i sbarduno datblygiad cynaliadwy. Mae gan Bolisi Amgylcheddol y Cyngor dargedau penodol i reoli'r defnydd o ynni.

- drwy ei feddalwedd rheoli prosiectau (CAMMS), gall y Cyngor ddangos ei fod yn mynd ati'n weithredol i gynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth wneud penderfyniadau strategol sy'n gysylltiedig ag asedau eiddo.
- mae'r Cyngor yn ceisio dilyn Egwyddorion Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru wrth Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Er enghraifft, roedd y cynigion diweddar ar gyfer adeiladau Glasdir yn ddarostyngedig i ymgysylltiad a gafodd gyhoeddusrwydd da â phobl sy'n byw yn Llanrwst, a chynhaliwyd asesiad cynhwysfawr o'r effaith ar gydraddoldeb ar y cynigion terfynol. Ymgynghorwyd hefyd â staff a'u hundebau llafur ynghylch cynllun a chyfleusterau Coed Pella.
- mae'r Cyngor yn cydweithredu â phartneriaid i wneud y defnydd gorau posibl o'i asedau. Er enghraifft, symudodd y Cyngor y llyfrgell a gwasanaeth yr heddlu i safle canolfan gymunedol Glasdir â chyllid Llywodraeth Cymru drwy raglen fuddsoddi Trawsnewid Trefi. Yn ystod y pandemig, gweithiodd y Cyngor gyda chyrff cyhoeddus eraill i ddefnyddio asedau'r Cyngor fel canolfannau brechu, ac i sefydlu ysbyty dros dro yn theatr Venue Cymru yn Llandudno.

## Caiff cynllun rheoli asedau y Cyngor ei fonitro, ond nid yw'n meincnodi ei berfformiad

### Pam mae adolygu'r gwaith o gyflawni newidiadau arfaethedig i asedau yn effeithiol yn bwysig

14 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro a ydynt yn cyflawni eu canlyniadau arfaethedig yn effeithiol ac yn effeithlon dros y tymor byr a'r tymor hwy. Gall defnyddio data meincnodi roi mewnwelediad defnyddiol ar berfformiad unigol cynghorau a gall nodi cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

15 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- nid yw adroddiad rheoli asedau blynyddol y Cyngor i gynghorwyr yn darparu gwerthusiad cadarn a defnyddiol o ddull y Cyngor o ymdrin â'i asedau ac o benderfynu a yw'n cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad y Cyngor o'i gymharu â chyfres o ddangosyddion asedau cenedlaethol, ond cyfyngedig yw'r gwaith dadansoddi ar y data, y tueddiadau hirdymor a'r perfformiad cymharol.
- mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau rheoli asedau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n aelod o grwpiau eiddo Consortiwm

Awdurdodau Lleol Cymru a Chymdeithas Prif Syrfewyr Ystadau (ACES). Mae hefyd yn cyfrannu at y Gweithgor Asedau Cenedlaethol.

- fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn meincnodi ei ddull o ddeall ei berfformiad ei hun yn well ac o nodi meysydd i'w gwella. Rydym yn cydnabod y byddai hyn wedi bod yn anodd dros y pandemig. Bydd y gallu i gymharu data a threfniadau â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o'r trefniadau i helpu'r Cyngor i ddeall a yw'n cyflawni gwerth am arian. Bydd yn her i gynghorau ei ystyried, yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

# Gweithlu

## Mae gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei weithlu yn y dyfodol, ond mae'n cydnabod bod angen ei adnewyddu yn dilyn y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig

### Pam mae gosod gweledigaeth glir yn bwysig

16 Mae bod â strategaeth glir ar gyfer ei weithlu a chynlluniau cyflawni datblygedig yn bwysig er mwyn sicrhau gweithlu effeithlon ac effeithiol yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae hefyd yn bwysig nodi sut mae strategaeth y gweithlu yn cyd-fynd ac wedi ei hintegreiddio â strategaethau perthnasol eraill gan gynnwys, rheoli asedau, digidol, a lleihau carbon. Gall dysgu o'r newidiadau a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19 byd-eang helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwasanaethau a ddarperir.

17 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei weithlu yn y dyfodol a nodir yn ei Fframwaith Doethwaith 2020. Mae'n nodi canllaw model hybrid o ran gweithio ystwyth lle mae cynghorwyr a'r holl staff swyddfa yn gweithio gartref ac yn mynychu'r swyddfa (neu leoliad hyb arall) yn unol ag anghenion y gwasanaeth.
- daeth Strategaeth Adnoddau Dynol y Cyngor i ben yn 2017 ac felly ni wnaeth adlewyrchu'r strategaeth gweithio hybrid fel y nodir yn y Fframwaith Doethwaith ar wahân na'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig. Ni wnaeth gyd-fynd â chynlluniau a strategaethau allweddol eraill ychwaith. Ym mis Mawrth 2023 gwnaeth y Cyngor gymeradwyo Strategaeth Bobl newydd a aeth i'r afael â'r materion hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn gyfle i ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n gofyn am ddull hirdymor o ymdrin â'i weithlu, sydd wedi ei integreiddio â chynlluniau allweddol eraill, wedi ei ymgorffori yn ei gynllun ariannol tymor canolig ac a gefnogir gan gynlluniau cyflawni wedi eu costio.

- er nad oes gan y Cyngor strategaeth Adnoddau Dynol newydd eto, mae wedi nodi risgiau gweithlu, dros y tymor byr a'r tymor hwy, ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â nhw, sy'n cynnwys:
  – estyn ei Gynllun Prentisiaethau, er mwyn cynyddu nifer y prentisiaid;
  – datblygu talent fewnol ar draws holl adrannau'r Cyngor;
  – cynnal ymgyrchoedd recriwtio lleol ledled y sir, yn ogystal â threialu syniadau a dulliau newydd i ddenu mwy o ymgeiswyr;
  – nodi'r bylchau mewn sgiliau ac arbenigedd a ragwelir dros y pump i ddeng mlynedd nesaf a chymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r rhain; ac
  – archwilio ffyrdd o gynyddu capasiti a chadernid ei wasanaethau plant ac oedolion, y sefyllfa recriwtio ym meysydd gofal cymdeithasol i blant a gofal i oedolion, edrych ar ffyrdd o gynyddu capasiti a chadernid ein gweithlu.

## Mae'r Cyngor wedi gweithredu model hybrid o weithio ar gyfer ei weithlu

### Pam mae rheoli'r gwaith o gyflawni newidiadau arfaethedig i'r gweithlu yn effeithiol yn bwysig

18 Mae'n bwysig bod cynlluniau gweithlu yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn effeithlon ac yn effeithiol fel bod y gwariant gwirioneddol cyn agosed â phosibl at y lefelau arfaethedig a bod cynghorau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol. Gall cydweithredu effeithiol â sefydliadau eraill a chynnwys cymunedau mewn cysylltiad â'u hanghenion wella'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion. Pan nad oes gan gynghorau yr ystod o sgiliau, yr wybodaeth, na'r arbenigedd i reoli materion gweithlu parhaus yn effeithiol a chyflawni newidiadau strategol, gallai hyn leihau'r gallu i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

19 Yr hyn a ganfuwyd gennym:

- mae'r model hybrid o weithio ystwyth yn sgil y pandemig a nodir yn Doethwaith 2020 bellach yn weithredol drwy holl wasanaethau'r Cyngor;
- mae gweithio ystwyth i'r rhan fwyaf o staff yn dal i olygu bod angen presenoldeb yn swyddfeydd y Cyngor;
- ymgysylltodd y Cyngor â staff a chynghorwyr i fesur safbwyntiau ar lesiant a threfniadau gweithio yn y dyfodol;
- gweithiodd Adnoddau Dynol a'r Undebau Llafur gyda'i gilydd i gefnogi'r broses o weithredu datblygiadau newydd ym maes iechyd a diogelwch;
- cynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb cyn i staff ddychwelyd i'w swyddfeydd neu dreulio mwy o amser yn gweithio gartref.

## Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o faterion cyfredol y gweithlu, ond nid yw'n meincnodi ei drefniadau ac nid oes ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion tymor hwy er mwyn llywio ei gynlluniau

### Pam mae adolygu'r gweithlu yn effeithiol yn bwysig

20 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro a ydynt yn cyflawni eu canlyniadau arfaethedig yn effeithiol ac yn effeithlon dros y tymor byr a'r tymor hwy. Gall defnyddio data meincnodi roi mewnwelediad defnyddiol ar berfformiad unigol cynghorau a gall nodi cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

21 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth gadarn dda o'r heriau gweithlu presennol, gan gynnwys recriwtio a chadw staff.
- mae data proffil y gweithlu yn ddatblygedig ac maent ar gael i'r holl wasanaethau.
- mae'r Cyngor wedi datblygu dangosfwrdd er mwyn monitro ac adolygu data'r gweithlu. Adroddir y dangosfwrdd i'r uwch-dîm arweinyddiaeth bob chwarter.
- diwygiodd y Cyngor ei bolisi gweithio hybrid ar ôl ymgynghori â staff i weld a yw'r trefniadau gweithio hybrid a gweithio gartref yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau. Helpodd hyn y Cyngor i gael dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.
- roedd y swyddogion y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod meincnodi gyda chynghorau eraill yn anodd ac nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml. Fel y pwysleisir yn adran asedau yr adroddiad hwn, bydd y gallu i gymharu data a threfniadau â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig i helpu'r Cyngor i ddeall a yw'n cyflawni gwerth am arian.

22 Mae angen ystod lawn o ddata i gynllunio'r gweithlu hirdymor, am y galw a roddir arno yn ogystal â'r gweithlu. Er bod gan y Cyngor rywfaint o wybodaeth am y galw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn fwyaf nodedig, nid yw'r wybodaeth hon ganddo ar gyfer pob un o'i wasanaethau. Byddai cael yr wybodaeth hon yn helpu'r Cyngor i ddatblygu ei strategaeth weithlu.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.